Neuadd Y Sir
Stryd Caefyrddin
Llandeilo
Gaerfyrddin
SA19 6AF

ffon/Fax:
01558 824167

Technical Officer/
Swyddog Technegol:
Mr R.H. Griffiths

The Shire Hall
Carmarthen Street
Llandeilo
Carmarthenshire
SA19 6AF

Phone/Fax:
01558 824167

Town Clerk/ Clerc y
Dref: Ms C.A .Paterson
clerk@llandeilo.gov.uk

Cofnodion o Gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol, Llandeilo, ar ddydd Mercher 4ydd Chwefror 2004 am 7.00 pm.

Presennol: *Cynghorwyr.* Cyng R. Bellamy (Cadeirydd), Cyng K. Day, Cyng C. Jenkins, Cyng D.A. Jones *Arall;* R. Huw Griffiths (Swyddog Technegol)

5986: Ymddiheuriadau: C. Paterson (Clerc y Dref), Cyng Jenkins (Cyrhaeddodd yn Hwyr)

5987: Anfonebau i'w talu

CT Fabrications (Mainc yn Mharc Penlan)	£204.00+ £34.70 TAW
Archaeoleg Cambria	£18.72 llungopïo
Viking Direct	£62.93 talu ar dderbyn copi o'r anfoneb os heb dalu.
Misco	£246.73 (Argraffydd)
BT	£29.47 (Bil Diwygiedig)
Mr a Mrs Davies (Waverly)	£25.00 (Trydan y Goleuadau Nadolig)

Cytunir talu'r biliau hyn, cynigiwyd gan y Cyng. Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Day

5988: Anfonebau a Dalwyd;
Mae'r cyfrifon canlynol wedi'u talu.

Calvin Jenkins	Goleuadau Nadolig £1005.00
M.H. Evans	Bracedi ar gyfer y Goleuadau Nadolig. £200.00

5989: Materion Ariannol Eraill.

Yr Archwiliadau Cyllid Chwarterol.

Mae'r Clerc a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid wedi cynnal Archwiliad Cyllid Chwarterol hyd at 31 Rhagfyr 2003. Mae pob dim mewn trefn.

5990: Dyfynbris am osod ffenest newydd yn y Neuadd Sirol. Mae'r Swyddog Technegol wedi derbyn 2 ddyfynbris ar gyfer gosod y ffenest newydd yn y Neuadd Sirol.
PF Joinery (Llandybie) £520 + TAW = £611
Gareth Peters £650

Derbynnir y dyfynbris oddi wrth PF Joinery, a chomisiynir hwy i wneud y gwaith. Cynigiwyd gan K. Day ac eiliwyd gan y Cyng. Jones.

5991: Diwrnod Agored Arolwg Treftadaeth. I'w gynnal yn Festri Capel Newydd rhwng 11am a 3.30pm ar ddydd Sadwrn 21ain Chwefror 2004.

Gofyn i Gapel Newydd a fyddent yn fodlon darparu Te a Choffi am swm ychwanegol/rhodd. Cyng Jones i drafod gydag Archaeoleg Cambria ynghylch dylunio a darparu posteri / taflenni. Cyng Day i drefnu deunydd ar gyfer arddangos y ffotograffau. Cambria i drefnu'r arddangosfa. Clerc i drefnu Andrew Williams i ddod â chyflwyno'r Wefan.

Y Wefan.

Clerc i wneud yn si r bod y dogfennau a'r cofnodion diweddaraf yn cael eu hanfon ar e-bost at Orchard Web. Cyng Jones i ysgrifennu tudalen newyddion ar yr Arolwg Treftadaeth.

5992: Y Swyddfa yn y Caban. Mae'r Clerc wedi derbyn dyfynbrisau oddi wrth 'Towy Decorators' i osod bleindiau yn ffenestri'r Caban. Cytunodd y Cyngor fod y gost yn uchel.

Y Swyddog Technegol i archwilio i opsiynau eraill a hefyd edrych i mewn i brynu bwrdd a chadeiriau ail law ar gyfer cynnal cyfarfodydd yn y caban.

5993: Y cyfrifon banc. Mae'r fantolen gyfredol fel a ganlyn:

Business Money Manager	£44252.72
Cyfrif y Trysorydd (heb ei gysoni)	£4947.32
Cyfrif y Maer	£1043.85

5994: Templed Drafft fel ymateb i lythyron yn gofyn am Gymorth Ariannol. Darparwyd copi o lythyr gan y Clerc yn gofyn am wybodaeth ar gyfer ystyried ceisiadau am Gymorth Ariannol.

Mae'r pwyllgor wedi penderfynu anfon llythyr dwyieithog at bob ymgeisydd. (Gydag un iaith ar un ochr a iaith arall ar yr ochr arall), ac mae'r Pwyllgor yn argymell talu am gyfieithu'r llythyr hwn.

5995: Y Rheils ar y Cilgant.

Y rheils i'w peintio'n Ddu ac Aur. Cynigiwyd gan y Cyng Day ac eiliwyd gan y Cyng Jones.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10pm.